Eitem 6 ar yr Agenda **24 Medi 2010** **PCC 29.10**

SAFBWYNT POLISI *COETIROEDD I GYMRU*:
Bioamrywiaeth

Pwrpas

1. Cyflwyno DRAFFT terfynol Safbwynt Polisi *Coetiroedd i Gymru* ar Fioamrywiaeth i'r Pwyllgor Cenedlaethol ar gyfer sylwadau a chymeradwyaeth.

Cefndir

2. Mae pwrpas a phroses datblygu Safbwyntiau Polisi i gefnogi *Coetiroedd i Gymru* wedi eu trafod a'u cytuno eisoes. Dangosir rhai o'r prif bwyntiau yn Atodiad 1.

3. Mae'r Safbwynt Polisi hwn ar gyfer Bioamrywiaeth ac mae wedi'i lunio er mwyn nodi'r agweddau polisi sy'n berthnasol i ddatblygu rhaglenni yn benodol ar gyfer bioamrywiaeth coetiroedd a choed. Mae'r Agenda ar gyfer Gweithredu yn adlewyrchu Cynllun Gweithredu *Coetiroedd i Gymru*.

4. Dyma'r Safbwynt Polisi olaf, o gyfres o wyth, i'w gyflwyno:

   - Coetiroedd Cymru - eu maint, eu natur a'u cymeriad **[cytunwyd Mawrth 2010]**;
   - Dŵr a Phriddoedd **[cytunwyd Gorffennaf 2009]**;
   - Bioamrywiaeth **[dan sylw]**;
   - Tirwedd, diwylliant a threftadaeth **[cytunwyd Tachwedd 2009]**;
   - Datblygiad economaidd a menter **[cytunwyd Gorffennaf 2010]**;
   - Addysg, dysgu a sgiliau **[cytunwyd Tachwedd 2009]**;
   - Cyfranogiad cymunedol **[cytunwyd Medi 2009]**;
   - Iechyd a lles **[cytunwyd Gorffennaf 2009].**

Cynnydd diweddar

5. Er na fu unrhyw gyswllt allanol ffurfiol ar y safbwynt polisi hwn hyd yn hyn, mae cydrannau'r ddogfen wedi bod yn destun llawer blwyddyn o gyswllt ymhlith nifer fawr o sefydliadau a grwpiau 'mantell' a grwpiau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU sefydledig. Er enghraifft, mae Grŵp Cynllun Gweithredu Cynefin Coetiroedd Brodorol y DU wedi datblygu'r targedau ar gyfer coetiroedd brodorol ac wedi pennu meini prawf cyflwr cynefinoedd. Mae gweithgor Strategaeth Amgylchedd Cymru Canlyniad 21 yn goruchwylio ymagwedd reoli sefydledig i ddod â safleoedd y'u gwarchodir o dan reolaeth ffafriol. Er na fu unrhyw gytundeb ffurfiol o ran blaenoriaethu rhywogaethau

coetiroedd 'adran 42', mae Grŵp Ecosystem Coetiroedd[1] wedi cymryd rhan am beth amser mewn datblygu ac argymhellir mabwysiadu ffurfiol. Bydd y Grŵp Ecosystem Coetiroedd wedi ystyried y ddogfen DRAFFT DERFYNOL hon ar 23 Medi. Mae materion perthnasol a godwyd o ganlyniad i gysylltu ynghylch safbwyntiau polisi blaenorol wedi'u cynnwys. Bydd cyswllt ffurfiol pellach yn digwydd ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cenedlaethol. Yn ogystal, gwahoddwyd aelodau Bwrdd Rheoli Comisiwn Coedwigaeth Cymru i gynnig sylwadau ar y DRAFFT TERFYNOL hwn ac maent hwy wedi argymell bod y Pwyllgor yn ei gymeradwyo.

Cyd-destun

6. Gwelwyd arfarnu cyflym o'r ymagweddau presennol i weithredu bioamrywiaeth ar lefel byd-eang, Ewropeaidd a DU yn sgil y methiant i fodloni targed rhyngwladol 2010 i atal colli bioamrywiaeth. Ym Mawrth 2010, cytunodd y Cyngor Amgylcheddol ar weledigaeth tymor hir a tharged pennawd canol tymor ar gyfer bioamrywiaeth yn yr UE a fydd yn tanategu strategaeth fioamrywiaeth newydd yr UE i'w datblygu yn 2010; *'I atal colli bioamrywiaeth a diraddio gwasanaethau ecosystem yn yr UE erbyn 2020, a'u hadfer cyn belled ag y bo modd, tra'n codi cyfraniad yr UE i atal colli bioamrywiaeth ar raddfa fyd-eang.'* Bydd Cynhadledd Nagoya o'r Partion sydd ar y gweill (Cytundeb ar Amrywiaeth Biolegol) yn ystyried sut i fynd ymlaen â fframwaith byd-eang newydd ar fioamrywiaeth.

7. Yng Nghymru, mae lansio ymgynghori cyhoeddus '*Cymru Fyw*' tuag at Fframwaith Amgylchedd Naturiol ar 15 Medi 2010 yn awgrymu ymagwedd ecosystem i weithredu bioamrywiaeth a gwneud penderfyniadau ar gyfer cyflawni gwasanaeth optimaidd. Yn draddodiadol, mae blaenoriaeth gweithredu bioamrywiaeth wedi bod yn seiliedig ar fygythiad, pethau anghyffredin, prinder a chadw'r enghreifftiau gorau o gynefinoedd 'nodweddiadol' gan gyfres o fesurau a rheoliadau cyfreithiol. Tra cydnabyddir cadwraeth o'r eiconaidd (gwerth) a'r prinder (angen), mae'n ceisio hyrwyddo gwerth ehangach strwythur a swyddogaeth ecosystem a'r 'cyffredin' - cydbwysedd y mae rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy wedi bod yn ei geisio am beth amser. Yn wir, ecosystem goetir iach a hydwyth yw prif egwyddor a'r canlyniad a geisir o *Goetiroedd i Gymru*.

8. Mae'r broses lywodraethu a datblygu ar gyfer *Fframwaith Amgylchedd Naturiol* wedi nodi nifer o densiynau. Mae gweithredu bioamrywiaeth wedi'i drefnu ar rwydweithiau cyflawni lleol sefydledig sydd yn aml yn gwrthdaro â blaenoriaethu ar lefel strategol.

[1] Mae Grŵp Ecosystem Coetiroedd yn rhan o Lywodraethu Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru gan gynnwys aelodau fel Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Coed Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac fe'i cadeiriwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Yn aml, canlyniad hyn yw galw am gyflawni 'hollgynhwysol' dim llawer o ganolbwyntio ac felly methiant o ran canlyniad. Nid yw'r term bioamrywiaeth yn un hawdd i gyfleu am fod y diffiniad wedi'i drwytho mewn egwyddor wyddonol nas rhennir rhwng cynulleidfaoedd. Mae'r anhawster cynhenid i ddiffinio a chael adnodd fframwaith monitro o amgylch cyflwr ffafriol safleoedd a chynefinoedd wedi'u gwarchod wedi gweld newid o ran canolbwyntio tuag at gael rheoli ffafriol. Gellir dehongli hyn fel rhywbeth sy'n canolbwyntio'n llai ar ganlyniad ond y bwriad yw gwella cyflwr ecolegol adnoddau'r tir a'r môr yn gyffredinol – symudiad tuag at werth ehangach strwythur a swyddogaeth ecosystem – ac felly darpariaeth fwy teg o'r gwasanaethau y gall yr ecosystemau hynny eu cynnig.

Goblygiadau Ariannol

9. Bydd fforddiadwyedd yn amlygu ei hun mewn dwy ffordd. Yn gyntaf rhwng rhaglenni ('Faint') ac yn ail trwy gynllunio busnes ('Pryd'). Cyfrifoldeb y Cynlluniau Corfforaethol / Busnes yw cytuno ar ddyrannu'r adnoddau hyn. Fodd bynnag, oherwydd ein hymdrechion i wella'r cysoni o bolisi drwodd i gyflawni, mae angen i bawb sy'n ymwneud â phennu polisi neu ymgymryd â'r 'trosiad' corfforaethol gymryd materion adnoddau i ystyriaeth.

Dadansoddiad Risg

10.

Cydran Risg	Math o Risg: Economaidd Enw Da Amgylcheddol a Chymdeithasol	Sgôr Effaith / Tebygolrwydd	Sgôr Risg	Rheolaethau
Peidio â chael gwell cysoni strategol	**Enw Da**	**5 / 3**	**15**	**Datblygu prosesau effeithiol**
Nad yw'r 'allbynnau' yn ddefnyddiol	**Enw Da**	**3 / 4**	**12**	**Datblygu prosesau effeithiol**
Na chaiff yr 'allbynnau' eu defnyddio	**Enw Da**	**4 / 4**	**16**	**Llywodraethu a rheoli pobl yn effeithiol**
Sgôr Risg 0 – 5 Dibwys / 6 – 10 Isel / 11 – 20 Canolig / 21 – 25 Uchel				

Cyfathrebu

11. Caiff y Safbwyntiau Polisi eu cyhoeddi ar wefannau Llywodraeth y Cynulliad a'r Comisiwn Coedwigaeth a chânt eu defnyddio gan y tîm Polisi wrth symud llawer o'r tasgau a nodir yn yr adrannau 'Agenda ar gyfer Gweithredu' yn eu blaen gyda

phartneriaid, yn ogystal ag ar gyfer datblygiad parhaus Cynllun Gweithredu *Coetiroedd i Gymru*.

Argymhelliad

12. Gofynnir i'r Pwyllgor gynnig sylwadau ar gynnwys DRAFFT TERFYNOL y Safbwynt Polisi hwn a'i gymeradwyo.

Clive Thomas a Michelle van-Velzen
Tîm Datblygu Polisi a Rhaglenni
Medi 2010

Atodiad 1

Agweddau allweddol ar Safbwyntiau Polisi i gefnogi *Coetiroedd i Gymru*:

- Mae'r Safbwyntiau hyn yn arf polisi ar gyfer nodi'r dystiolaeth fanwl a hefyd yn caniatáu gwneud peth dadansoddiad gofodol strategol (os yw'n berthnasol). Mewn gwirionedd, atodiadau i'r strategaeth ei hunan yw'r rhain, ac maen nhw'n helpu i gysylltu â'r Cynllunio Gweithredu sydd ei angen ar gyfer cyflawni'r Strategaeth.

- Maen nhw'n ymdrin â'r 'pam' ac yn cyflwyno'r 'beth a sut' trwy'r adran 'Agenda ar gyfer Gweithredu'. Maen nhw'n rhan hanfodol o ddatblygu'r sail resymegol ar gyfer ymatebion corfforaethol (rhaglenni) y Comisiwn Coedwigaeth i'r strategaeth *Coetiroedd i Gymru* ddiwygiedig. Trwy ddatblygu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y strategaeth, byddwn yn ceisio dylanwadu ar bartneriaid cyflawni eraill i'w defnyddio mewn ffordd debyg. Gan hynny, prif gynulleidfa'r Safbwyntiau Polisi yw tîm Polisi Comisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â chynulleidfa rhanddeiliaid polisi / strategaeth / archwilio ehangach.

- Mae gan rai o aelodau Panel Ymgynghorol Strategaeth Coetir fewnbwn i'r gwaith penodol ar y Safbwyntiau Polisi, ac mae'r broses ehangach o ddiwygio'r strategaeth hefyd wedi dylanwadu ar eu datblygiad.

- Gan fod y Safbwyntiau Polisi hyn yn gefnogol i'r strategaeth *Coetiroedd i Gymru* ddiwygiedig a'i Chynllun Gweithredu cysylltiedig, dylid eu cyflwyno felly.

- Bydd nifer o'r Safbwyntiau Polisi, ynghyd â Rhaglenni Corfforaethol Comisiwn Coedwigaeth Cymru a ddatblygwyd o'r 'Agendâu ar gyfer Gweithredu' o ddiddordeb yn allanol i randdeiliaid ac yn haeddu cynhyrchu cyhoeddiad. Fodd bynnag, mae'r cyhoeddiadau hyn yn wahanol i'r Safbwyntiau Polisi a'r Rhaglenni Corfforaethol.